Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad Dilynol o Lywodraethu Ansawdd – Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Blwyddyn archwilio: 2023-24

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4693A2025

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2025. Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti, lle mae'r adroddiad hwn yn y cwestiwn.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Canfyddiadau allweddol 5

Argymhellion 6

Adroddiad manwl

Rhoi argymhellion archwilio blaenorol ar waith 8

Ymateb i ofynion y Ddyletswydd Gonestrwydd a’r Ddyletswydd Ansawdd 20

Atodiadau

Atodiad 1 – Dulliau archwilio 22

Atodiad 2 – Ymateb sefydliadol i’r argymhellion archwilio 24

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

1 Dylai ansawdd fod yn 'ganolog' i bob agwedd ar ofal iechyd ac mae 'rhoi ansawdd a diogelwch' uwchlaw popeth arall yn un o'r gwerthoedd craidd sy'n tanategu'r GIG yng Nghymru. Gall gofal o ansawdd gwael fod yn gostus o ran niwed, gwastraff, ac amrywiad.

2 Yn ystod 2021-22, fe wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol adolygu trefniadau llywodraethu ansawdd ar draws yr holl Fyrddau Iechyd yng Nghymru. Fe ganolbwyntiodd y gwaith hwnnw ar y canlynol:

- dulliau gweithredol a chorfforaethol o lywodraethu ansawdd.
- diwylliant ac ymddygiadau sefydliadol;
- strategaeth, strwythurau a phrosesau; a
- llifoedd gwybodaeth a phrosesau adrodd.

3 Canfu ein hadolygiad o lywodraethu ansawdd yn 2022 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd) fod y Bwrdd Iechyd wedi mynegi'n glir beth oedd y trefniadau corfforaethol ar gyfer llywodraethu ansawdd a'i feysydd ffocws allweddol ar gyfer ansawdd a diogelwch. Fodd bynnag, ar adeg llunio'r adroddiad roedd gwendidau'n dal i fodoli ar lefel isadrannau a chyfarwyddiaethau a allai effeithio ar lif sicrwydd o'r llawr i'r Bwrdd. Fe wnaethom wyth argymhelliad a oedd yn ymdrin ag 16 o feysydd argymelledig penodol ar gyfer gwella. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar reoli risg, archwilio clinigol, gwerthoedd ac ymddygiadau, profiad cleifion, gweithio i wella, adnoddau llywodraethu ansawdd, a threfniadau ansawdd a diogelwch isadrannau.

4 Ym mis Mehefin 2020, daeth y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) (y Ddeddf) yn gyfraith. Mae'r Ddeddf wedi cryfhau'r ddyletswydd i sicrhau gwelliannau i ansawdd ar draws y system gyfan, yn ogystal â gosod dyletswydd gonestrwydd ar gyrff y GIG, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt fod yn agored a gonest pan fo pethau'n mynd o chwith i'w gwneud yn bosibl dysgu gwersi. Mae'r Ddeddf yn dynodi bod ansawdd yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, effeithiolrwydd a diogelwch gwasanaethau iechyd a phrofiad defnyddwyr gwasanaethau. Ers cynnal ein hadolygiad yn 2022, mae'r gofynion penodol sy'n tanategu'r Dyletswyddau Gonestrwydd ac Ansawdd (a gyflwynwyd dan y Ddeddf) wedi cael eu cytuno, a dylai'r holl gyrff iechyd fod wedi gwneud cynnydd da i weithredu trefniadau i ateb y gofynion hynny.

5 Mae'r adolygiad dilynol hwn o lywodraethu ansawdd yn asesu cynnydd y Bwrdd Iechyd o ran rhoi argymhellion archwilio 2022 ar waith. Mae hefyd yn ystyried a yw'r Bwrdd yn cael sicrwydd angenrheidiol bod y Bwrdd Iechyd yn cymryd camau priodol i ymateb i ofynion y Ddeddf.

6 Caiff y dulliau a ddefnyddiom ni i gyflawni ein gwaith eu crynhoi yn **Atodiad 1**.

# Canfyddiadau allweddol

7 Ar y cyfan, **canfuom fod y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd o ran rhoi'r argymhellion ynghylch llywodraethu ansawdd a wnaethom yn 2022 ar waith ond bod angen iddo wreiddio'r newidiadau'n llawn. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau rhesymol i weithredu trefniadau i gyflawni'r dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd ond mae angen iddo wella cydymffurfio a monitro lle mae hyfforddiant yn y cwestiwn**.

## Rhoi argymhellion archwilio blaenorol ar waith

8 Er bod y Bwrdd Iechyd **wedi gwneud cynnydd o ran rhoi argymhellion archwilio blaenorol ar waith, dim ond pump o'r 16 o argymhellion sydd wedi'u cwblhau'n llawn.**

9 Canfu ein hadolygiad o gynnydd yn erbyn yr argymhellion yn ein hadolygiad o lywodraethu ansawdd yn 2022 fod pump o'r un ar bymtheg o argymhellion wedi cael eu cwblhau'n llawn, fod naw ar y gweill ac yn mynd rhagddynt yn dda a bod dau heb gael eu rhoi ar waith:

- **Argymhellion wedi'u cwblhau** – Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi pum argymhelliad ar waith yn llawn. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi diweddaru'r strategaeth, y polisi a'r cynllun archwilio clinigol, ac wedi cryfhau goruchwyliaeth pwyllgorau. Bu gwelliannau i drefniadau i roi cymorth i ddysgu o archwilio clinigol. Mae hefyd wedi sicrhau bod adborth cleifion yn cael sylw mwy amlwg yng nghyfarfodydd ansawdd a diogelwch isadrannau. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau adnoddau ehangach sydd â ffocws ar ansawdd ac mae wedi adolygu'r grwpiau ansawdd a diogelwch cleifion gweithredol i sicrhau eu bod yn cefnogi trefniadau llywodraethu ansawdd y Bwrdd Iechyd mewn modd effeithiol.
- **Argymhellion ar y gweill** – Mae cynnydd da'n cael ei wneud yn erbyn naw argymhelliad ond maent yn dal i fod 'ar y gweill'. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwreiddio'r Fframwaith Ansawdd a Llywodraethu, yn gwella'r modd y dysgir gwersi o brofiad cleifion o ddefnyddio gwasanaethau wedi'u comisiynu, ac yn cryfhau adroddiadau ar ansawdd ar draws y sefydliad. Fodd bynnag, mae llawer o'r trefniadau hyn yn newydd ac mae angen eu gwreiddio cyn bod y manteision a'r sicrwydd angenrheidiol yn cael eu gwireddu'n llawn. Mae angen diweddaru'r Fframwaith Llywodraethu a Sicrhau Ansawdd hefyd i ddarparu trefniadau sicrwydd eglur a phriodol 'o'r llawr/ward i'r Bwrdd'.
- **Argymhellion heb ddechrau** – Ni chanfuom unrhyw weithredu ar ddau o'n hargymhellion blaenorol. Roedd y rhain yn ymwneud â chymryd camau gweithredu gan y Bwrdd Iechyd i ddeall pam fod rhai aelodau o staff yn teimlo nad ydynt yn cael eu trin yn deg wrth hysbysu am wallau, ac na chymerir camau gweithredu priodol i ymdrin â phryderon a godwyd. Fodd bynnag, fe wnaethom nodi bod y Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno ystod o drefniadau i gynorthwyo staff i godi pryderon.

## Ymateb i ofynion y Ddyletswydd Gonestrwydd a'r Ddyletswydd Ansawdd

10 Canfuom fod y Bwrdd Iechyd **yn cymryd camau rhesymol i weithredu trefniadau i gyflawni'r dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd; fodd bynnag, ceir cyfle i wella cydymffurfio a monitro lle mae hyfforddiant yn y cwestiwn**.

11 Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd asesu ei barodrwydd yn erbyn llinell sylfaen Llywodraeth Cymru a datblygu rhaglen weithredu ymhell cyn dyddiad gweithredu'r Ddeddf, sef mis Ebrill 2023, a oedd yn dangos ymrwymiad cadarnhaol i gyflawni'r dyletswyddau hyn. Fe ymgysylltodd ag ystod o randdeiliaid allweddol i sicrhau parodrwydd, fe wnaeth friffio aelodau allweddol o staff a'r bwrdd ac mae'n adrodd yn rheolaidd ar gynnydd o ran gweithredu wrth y pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Deilliannau Cleifion. Fe ddatblygodd ac fe gyhoeddodd y Bwrdd Iechyd ei flaenoriaethau ansawdd ar gyfer 2024-25 yn ei adroddiad ansawdd blynyddol cyntaf. Mae'r blaenoriaethau hyn yn dal i gyd-fynd â'i ofynion o ran y ddyletswydd gonestrwydd a'r ddyletswydd ansawdd ac i roi cymorth i'w cyflawni ac fe'u tanategir gan ffrydiau gwaith eglur i'w cyflawni

12 Cynorthwyir staff trwy fodiwlau e-ddysgu i'w helpu i ddeall y dyletswyddau newydd ac ymateb iddynt. Fodd bynnag, ceir heriau o hyd. Er bod hyfforddiant yn ei le, nid yw'r Bwrdd Iechyd yn monitro'r modd y cydymffurfir â hyfforddiant. Mae hyn yn creu risg nad oes gan staff ddigon o ddealltwriaeth am y gofynion dan y Ddeddf.

13 Mae mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad ar Lywodraethu Ansawdd yn 2022 a'r argymhellion newydd yn yr adroddiad hwn yn cyflawni rôl bwysig o ran sicrhau bod trefniadau i gyflawni'r dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd yn cael eu gwreiddio'n llawn.

# Argymhellion

14 Caiff statws yr argymhellion archwilio a wnaed gennym yn 2022 ei grynhoi yn **Arddangosyn 1**.

**Arddangosyn 1: statws yr argymhellion a wnaed gennym yn 2022**

| Wedi'u cwblhau | Ar y gweill | Heb Ddechrau | Wedi'u disodli | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 5 | 9 | 2 | 0 | 16 |

15 Mae **Arddangosyn 2** yn manylu ar yr argymhellion newydd sy'n codi o'r adolygiad hwn. Bydd ymateb y Bwrdd Iechyd i'n hargymhellion yn cael ei grynhoi yn **Atodiad 2** unwaith y bydd wedi ei gwblhau.

**Arddangosyn 2: Argymhellion newydd (2025)**

| Argymhellion | |
|---|---|
| A1 | Dylai'r Bwrdd Iechyd gymryd camau i wella ei drefniadau i staff godi pryderon trwy:<br>1.1 diweddaru'r weithdrefn i staff y GIG godi pryderon fel ei bod wedi'i theilwra i'r Bwrdd Iechyd ac yn cynnwys gwybodaeth a chysylltiadau sefydliad-benodol **(Paragraff 32)**; ac<br>1.2 monitro effaith gwasanaethau cymorth allanol a mentrau achredu i sicrhau bod y camau gweithredu hyn yn diwallu anghenion staff ac yn trosi'n welliannau ystyrlon mewn deilliannau ymgysylltu â staff a diogelwch cleifion **(Paragraff 35)**. |
| A2 | Dylai'r Bwrdd Iechyd gymeradwyo adendwm neu ddiweddariad i'r Polisi 'Gweithio i Wella' cyfredol i adlewyrchu'r strwythur sefydliadol cyfredol a'r gofynion o ran y ddyletswydd ansawdd a'r ddyletswydd gonestrwydd. **(Paragraff 43)** |
| A3 | O fewn y 12 mis nesaf, dylai'r Bwrdd Iechyd werthuso effaith canoli ei dimau Ansawdd a Diogelwch Cleifion i sicrhau bod y manteision bwriadedig yn cael eu cyflawni. **(Paragraff 50)** |
| A4 | Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei drefniadau ar gyfer hyfforddiant e-ddysgu ar y ddyletswydd ansawdd a'r ddyletswydd gonestrwydd. Dylai hyn gynnwys:<br>4.1 cymryd camau i gynyddu cyfraddau cyfranogi mewn hyfforddiant e-ddysgu ar y Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd, i sicrhau bod gan staff ddealltwriaeth dda am eu cyfrifoldebau dan y gofynion **(Paragraff 58)**; a<br>4.2 monitro ac adrodd ar gyfraddau cwblhau ar gyfer hyfforddiant e-ddysgu ar y Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd **(Paragraff 58)**. |

# Adroddiad manwl

## Cynnydd a wnaed o ran rhoi'r argymhellion archwilio a wnaed gennym yn 2022 ar waith

16 Fe wnaethom ystyried cynnydd y Bwrdd Iechyd o ran rhoi'r argymhellion archwilio a wnaed gennym yn 2022 ar waith. Canfuom **fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd o ran rhoi argymhellion archwilio blaenorol ar waith, ond mai dim ond pump sydd wedi'u cwblhau'n llawn.**

### Argymhellion ynghylch rheoli risg

**Argymhelliad 1 yn 2022**

Caiff risgiau isadrannol eu cyflwyno i'r Grŵp Gweithredol Ansawdd a Diogelwch Cleifion, ond cyfyngedig oedd y dystiolaeth o ddadansoddi a thrafod manwl. Ceir tystiolaeth gyfyngedig hefyd bod y gyfarwyddiaeth Llawfeddygaeth Gyffredinol yn cynnal cofrestrau risgiau sy'n nodi risgiau i ansawdd a diogelwch a chamau lliniaru mewn modd digonol. Dylai'r Bwrdd Iechyd:

1.1 sicrhau bod trefniadau priodol ar gyfer craffu, herio, trafod ar draws isadrannau a rhannu arfer da mewn perthynas â risgiau isadrannol yn y Grŵp Gweithredol Ansawdd a Diogelwch Cleifion; a

1.2 sicrhau bod cofrestrau risgiau'n cael eu cwblhau a'u cynnal ar draws pob cyfarwyddiaeth a'r rheiny'n nodi risgiau i ansawdd a diogelwch a chamau lliniaru a bod trefniadau priodol ar gyfer uwchgyfeirio risgiau.

17 Fe wnaethom ystyried a oedd gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol i reoli risgiau i ansawdd a diogelwch. Roeddem yn disgwyl gweld y canlynol:

- gweithgarwch priodol o ran craffu, herio, trafod ar draws isadrannau a rhannu arfer da mewn perthynas â risgiau isadrannol yn y Grŵp Gweithredol Ansawdd a Diogelwch Cleifion; a
- bod cofrestrau risgiau'n cael eu cwblhau a'u cynnal ar draws yr holl gyfarwyddiaethau a'r rheiny'n adnabod risgiau i ansawdd a diogelwch a chamau lliniaru a bod trefniadau priodol ar gyfer uwchgyfeirio risgiau.

18 Canfuom **fod ein hadolygiad o samplau o gofrestrau risgiau cyfarwyddiaethau wedi canfod bod hepgoriadau mewn gwybodaeth am risgiau ac nad yw rhai risgiau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd o bosibl. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud newidiadau i drefniadau i adolygu risgiau gweithredol ar draws y sefydliad, ond nid yw rhannu gwybodaeth a gwersi am risgiau ar draws y sefydliad yn digwydd yn rheolaidd eto.**

19 Cafodd Grŵp Gweithredol Ansawdd a Diogelwch Cleifion y Bwrdd Iechyd ei ddirwyn i ben ym mis Awst 2023. Fe'i disodlwyd gan y Fforwm Ansawdd, Diogelwch Cleifion a Dysgu a Gwella (y Fforwm). Cynhaliodd y Fforwm ei gyfarfod cyntaf ym mis Mawrth 2024 ac mae wedi bod yn cwrdd bob deufis ers hynny. Mae gan y Fforwm gynrychiolaeth dda ar draws y cyfarwyddiaethau a'r isadrannau, ac mae cyfarfodydd fel rheol yn canolbwyntio ar ddysgu, gwella, a diogelwch cleifion.

20 Mae cylch gorchwyl y Fforwm wedi eu hysgrifennu'n dda, maent yn gynhwysfawr ac yn nodi'n glir y gofyniad i adnabod risgiau ac i rannu gwybodaeth a gwersi cysylltiedig ar draws yr holl isadrannau. Fodd bynnag, canfu ein harchwiliad nad yw rhannu gwybodaeth a gwersi am risgiau wedi'i wreiddio yng nghyfarfodydd y Fforwm. Hyd at adeg ein hadolygiad, nid oedd y Fforwm wedi cael unrhyw gofrestrau risgiau isadrannol eto. **Rydym ni o'r farn bod argymhelliad 1.1 ar y gweill**.

21 Mae gan bob isadran Bwyllgor Deilliannau Ansawdd a Diogelwch Cleifion newydd ar wahân. Mae risgiau isadrannol yn cael eu trafod a'u huwchgyfeirio fel y bo'n briodol yng nghyfarfodydd pwyllgorau. Ceir agendâu wedi'u safoni ar gyfer cyfarfodydd pwyllgorau isadrannol, ac mae risgiau'n cael eu hadolygu gan ddefnyddio data byw yn DATIX[1]. Fodd bynnag, fe wnaethom ni adolygu cofrestr risgiau'r isadran Llawfeddygaeth Gyffredinol ac adnabod materion gan gynnwys diffyg camau lliniaru a nodi bod rhai risgiau i'w gweld fel pe baent heb gael eu hadolygu am beth amser. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau yr eir i'r afael â bylchau yn y gofrestr risgiau llawfeddygaeth gyffredinol a sicrhau bod yr holl risgiau sydd wedi eu cynnwys ynddi'n cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddaru fel y bo'n briodol. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr holl isadrannau'n cynnal cofrestrau risgiau cyfoes a chynhwysfawr a'u bod yn defnyddio gweithdrefnau uwchgyfeirio risgiau mewn modd cyson ac, os oes angen, yn mynd i'r afael ag unrhyw fylchau. Hefyd, nid yw'r modiwlau DATIX ar gyfer risg, digwyddiadau a systemau archwilio clinigol wedi eu hintegreiddio, sy'n golygu nad yw'r broses o driongli data i adnabod themâu wedi ei hawtomeiddio. Yn lle hynny, mae themâu a materion yn cael eu triongli â llaw, sy'n aneffeithlon ac yn gallu arwain at golli materion. **Rydym ni o'r farn bod argymhelliad 1.2 ar y gweill**.

## Argymhellion ynghylch archwilio clinigol

**Argymhelliad 2 yn 2022**

Yn ystod ein hadolygiad, roedd y Bwrdd Iechyd wrthi'n diweddaru ei strategaeth a pholisi archwilio clinigol ac wrthi'n datblygu cynllun archwilio

[1] System ar-lein i staff hysbysu am wybodaeth sy'n ymwneud â digwyddiadau a risgiau yw Datix.

**Argymhelliad 2 yn 2022**

clinigol ar wahân. Roedd cylch gorchwyl grŵp Effeithiolrwydd a Safonau Clinigol y Bwrdd Iechyd ar ffurf dogfen ddrafft ac yn cynnwys gwybodaeth a oedd wedi dyddio. Ar lefel weithredol, mae capasiti archwilio clinigol yn gyfyngedig ac nid yw systemau i rannu gwersi ac arfer da wedi'u gwreiddio nac yn systematig. Dylai'r Bwrdd Iechyd:

2.1 gwblhau'r gwaith ar ei strategaeth, polisi a chynllun archwilio clinigol. Dylai'r cynllun gwmpasu archwiliadau cenedlaethol gorfodol, archwiliadau corfforaeth-gyfan a lleol a oleuir gan feysydd risg. Dylai'r cynllun hwn gael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Deilliannau Cleifion a dylai cynnydd o ran ei gyflawni gael ei fonitro'n rheolaidd.

2.2 diweddaru a chwblhau cylch gorchwyl y Pwyllgor Effeithiolrwydd a Safonau Clinigol.

2.3 sicrhau bod digon o adnoddau a chapasiti ar gyfer archwilio clinigol ar lefel weithredol.

2.4 sicrhau bod systemau ar gyfer dysgu ac arfer da o archwilio clinigol yn cael eu gwreiddio ar draws y sefydliad.

22 Fe wnaethom ystyried a oedd gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol ar gyfer archwilio clinigol. Roeddem yn disgwyl gweld y canlynol:

- bod y Bwrdd Iechyd wedi datblygu strategaeth, polisi a chynllun archwilio clinigol sy'n cwmpasu archwiliadau cenedlaethol a fandadir, archwiliadau corfforaethol ar draws y sefydliad cyfan ac archwiliadau lleol a oleuir gan feysydd lle ceir risg;
- bod y Cynllun Archwilio Clinigol wedi cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Deilliannau Cleifion, sy'n mynd ati'n rheolaidd i fonitro'r cynnydd o ran ei gyflawni;
- bod y Bwrdd Iechyd wedi diweddaru a chytuno'n derfynol ar gylch gorchwyl y Pwyllgor Effeithiolrwydd a Safonau Clinigol;
- bod y Bwrdd Iechyd wedi cwblhau ei adolygiad o adnoddau a chapasiti, ac wedi ymdrin ag unrhyw fylchau, i ategu archwilio clinigol ar lefel weithredol; a
- bod y Bwrdd Iechyd yn gwreiddio systemau ar gyfer dysgu ac arfer da o archwilio clinigol ar draws y sefydliad.

23 Canfuom **fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran datblygu ei gynlluniau Archwilio Clinigol a goruchwyliaeth pwyllgorau arnynt. Fodd bynnag, mae adnoddau ar gyfer cyflawni'n dal i fod yn broblem i'r Bwrdd Iechyd**.

24 Fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo'r Strategaeth Archwilio Clinigol 2022-25 ym mis Hydref 2022. Mae'r cynllun yn nodi pedair blaenoriaeth:

1. Creffir ar berfformiad archwilio clinigol cenedlaethol gyda chynlluniau gwella'n cael eu datblygu a'u monitro'n gadarn
2. Bydd isadrannau'n adnabod archwiliadau clinigol sy'n galluogi craffu a sicrwydd sy'n gysylltiedig â risg i ansawdd a diogelwch
3. Cynorthwyir hyfforddeion i gyfranogi mewn archwiliadau clinigol ystyrlon sy'n ategu llywodraethu clinigol
4. Bydd grwpiau a phwyllgorau ar draws y Bwrdd Iechyd yn comisiynu archwiliadau clinigol i ategu sicrwydd effeithiol yn ôl y gofyn

25 Canfu ein gwaith fod y Strategaeth Archwilio Clinigol wedi'i gwreiddio'n dda ac yr adroddir yn rheolaidd ar gynnydd yn erbyn y blaenoriaethau yn y strategaeth. I roi cymorth i gyflawni'r strategaeth, fe wnaeth y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd gymeradwyo'r Cynllun Archwilio Clinigol 2024-25 ym mis Mai 2024. Mae'r Cynllun Archwilio Clinigol 2024-25 yn nodi rhaglen briodol o archwiliadau clinigol gan gynnwys archwiliadau a fandadir yn genedlaethol ac archwiliadau isadrannol. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys ystod briodol o archwiliadau clinigol isadran-benodol sy'n seiliedig ar risg. Mae'r Bwrdd Iechyd yn sicrhau ei fod yn triongli gwersi o waith archwilio clinigol gyda chudd-wybodaeth arall gan gynnwys cwynion, digwyddiadau, a phrofiad cleifion. Defnyddir y Fforwm Ansawdd, Diogelwch Cleifion, Dysgu a Gwella i rannu gwersi, ac mae adroddiadau'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Deilliannau Cleifion hefyd.

26 Ceir goruchwyliaeth dda gan bwyllgorau ar gyflawni a deilliannau'r cynllun archwilio clinigol. Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch, a Deilliannau Cleifion a'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cael diweddariadau rheolaidd ar y cynllun. Fodd bynnag, gellid cryfhau adroddiadau diweddaru trwy adnabod cyfraddau cwblhau'n fwy eglur i ganfod pa gynnydd sy'n cael ei wneud o ran cyflawni'r cynllun. Ar lefel weithredol, mae'r Cynllun Archwilio Clinigol yn cael ei dracio a'i fonitro trwy'r system AMaT[2], gan sicrhau bod archwiliadau'n cael eu cwblhau a'u cymeradwyo ar lefel isadrannol ac ar lefel y Bwrdd Iechyd. **Rydym ni o'r farn bod argymhelliad 2.1 wedi'i gwblhau**.

27 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi diweddaru cylch gorchwyl ei Grŵp Effeithiolrwydd a Safonau Clinigol. Ar adeg ein gwaith, roedd y cylch gorchwyl ar ffurf fersiwn ddrafft a heb gael ei gymeradwyo eto. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu a diwygio aelodaeth y grŵp yma i sicrhau ei bod yn adlewyrchu blaenoriaethau strategol y Bwrdd Iechyd. **Rydym ni o'r farn bod argymhelliad 2.2 ar y gweill.**

28 Ar adeg ein gwaith, roedd y Bwrdd Iechyd yn adolygu ei adnoddau a chapasiti gweithredol i ategu archwilio clinigol. Roedd y diweddariad ar y cynllun archwilio clinigol i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ym mis Chwefror 2025 yn amlygu

[2] AMaT – Offeryn rheoli archwiliadau clinigol yn y cwmwl yw'r offeryn Rheoli a Thracio Archwiliadau (Audit Management and Tracking)

pryder parhaus ynghylch adnoddau gweithredol lleol i gyflawni gwaith archwilio clinigol. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud ymarfer mapio adnoddau gyda golwg ar adnabod capasiti ychwanegol. **Rydym ni o'r farn bod argymhelliad 2.3 ar y gweill**.

29 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella sut y mae'n rhannu gwersi o waith archwilio clinigol ac yn eu rhoi ar waith. Yn dilyn cwblhau archwiliad, mae camau gwella'n cael eu hymgorffori mewn cynlluniau gweithredu CAMPUS[3], a gaiff eu cytuno gyda thimau arwain a'u cymeradwyo gan y Grŵp Effeithiolrwydd a Safonau Clinigol. Mae canlyniadau archwilio clinigol cenedlaethol yn cael eu trafod yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Deilliannau Cleifion. Hefyd, ers mis Mawrth 2024, mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal fforymau dysgu isadrannol deufisol sy'n canolbwyntio ar ddysgu gwersi o waith archwilio clinigol. **Rydym ni o'r farn bod argymhelliad 2.4 wedi'i gwblhau**.

## Argymhellion ynghylch gwerthoedd ac ymddygiadau

**Argymhelliad 3 yn 2022**

Mae gan y Bwrdd Iechyd fframwaith gwerthoedd ac ymddygiadau sydd wedi hen ymsefydlu ac sy'n nodi ei weledigaeth ar gyfer diwylliant sy'n canolbwyntio ar ansawdd a diogelwch cleifion. Fodd bynnag, ceir darlun cymysg mewn perthynas â'r diwylliant o ran hysbysu ynghylch gwallau, digwyddiadau trwch blewyn neu ddigwyddiadau gwirioneddol a chodi pryderon a'r camau gweithredu a gymerwyd gan y Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael â hwy. Dylai'r Bwrdd Iechyd wneud gwaith i ddeall pam fod rhai aelodau o staff yn teimlo:

3.1 nad ydynt yn cael eu trin yn deg neu'n cael adborth wrth hysbysu ynghylch gwallau, digwyddiadau trwch blewyn neu ddigwyddiadau gwirioneddol; a

3.2 nad yw'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu ar bryderon y maent yn eu codi neu'n gweithredu i leihau i'r eithaf y tebygolrwydd y bydd gwallau, digwyddiadau trwch blewyn neu ddigwyddiadau gwirioneddol yn cael eu hailadrodd yn y dyfodol.

30 Fe wnaethom ystyried a oedd gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol ar gyfer gwerthoedd ac ymddygiadau. Roeddem yn disgwyl gweld y canlynol:

- bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol i sicrhau bod staff yn cael eu trin yn deg ac yn cael adborth wrth hysbysu am wallau, digwyddiadau trwch blewyn neu ddigwyddiadau gwirioneddol; a

[3] Cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol

- bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol i weithredu'n brydlon ar bryderon staff a gweithredu i leihau i'r eithaf achosion o wallau, digwyddiadau trwch blewyn a digwyddiadau gwirioneddol yn y dyfodol.

31 Canfuom **fod gan y Bwrdd Iechyd ystod dda ac eang o fentrau i greu amgylchedd diogel lle gall staff ddatgelu pryderon. Fodd bynnag, nid oedd yn tanategu'r mentrau â dealltwriaeth pam fod staff yn teimlo'n gyndyn o godi pryderon ac yn meddwl na fydd camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi gwerthuso ei fentrau i weld a ydynt yn cael yr effaith a ddymunir**.

32 Mae Cynllun Pobl y Bwrdd Iechyd 2022-25 yn canolbwyntio ar 'Roi Pobl Yn Gyntaf' a danategir gan ei fframwaith gwerthoedd ac ymddygiadau sydd wedi hen ymsefydlu. Mae gan y Bwrdd Iechyd weithdrefn dda i staff y GIG godi pryderon. Fodd bynnag, nid yw ei weithdrefn Codi Llais Heb Ofn, sy'n seiliedig ar y model Cymru Gyfan, wedi cael ei theilwra i'r Bwrdd Iechyd ac nid yw'n cynnwys unrhyw gyfeiriadau penodol at yr unigolion y byddai angen i staff gysylltu â hwy **(Argymhelliad 1.1 yn 2025)**. Mae byrddau iechyd eraill yng Nghymru wedi addasu'r weithdrefn i adlewyrchu eu trefniadau a chysylltiadau mewnol.

33 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno ystod o fentrau sy'n amcanu at wella'r diwylliant o ran hysbysu am wallau, digwyddiadau trwch blewyn, digwyddiadau gwirioneddol, a chodi pryderon. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Diwylliant cyfiawn** – mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant i oruchwylio mentrau sy'n gysylltiedig â llesiant staff, diwylliant, a gwerthoedd. Mae gan y pwyllgor rôl hollbwysig trwy sicrhau bod polisïau ac arferion yn hybu diogelwch seicolegol, natur agored, y diwylliant a'r gwerthoedd a ddymunir yn y sefydliad, ac amgylchedd sy'n canolbwyntio ar ddysgu.
- **Fframwaith gwrando a dysgu** – sydd wedi ei fwriadu i greu amgylchedd diogel lle gall staff ddatgelu camgymeriadau, gan ei gwneud yn bosibl dysgu gwersi ac atal gwallau rhag cael eu hailadrodd. Mae'r fenter hon yn cyd-fynd â gweledigaeth y Bwrdd Iechyd ar gyfer diwylliant sy'n canolbwyntio ar ddysgu.
- **Rhaglen datblygu ffactorau dynol** – dros y 12 mis diwethaf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno'r rhaglen sy'n canolbwyntio ar ddatblygu diwylliant o fod yn agored a gwella diogelwch cleifion trwy ymgysylltu â staff.
- **Achredu wardiau a thimau** – gan amcanu at wella dealltwriaeth am ddata ynghylch ansawdd a diogelwch o archwiliadau o wardiau a rhoi anogaeth ar gyfer perchnogaeth a dysgu o fewn timau.
- **Gwasanaethau cymorth allanol** – ym mis Mawrth 2024, fe bontiodd y Bwrdd Iechyd o system fewnol ar gyfer codi pryderon i gomisiynu gwasanaethau a ddarperir yn allanol (Y Gwasanaeth Codi Llais a'r Rhaglen Cymorth i Gyflogeion) gan amcanu at annog staff i godi pryderon.
- **E-bost** – cyfeiriad e-bost mewnol sydd wedi ei neilltuo i godi pryderon.

- **Gwasanaethau Llesiant** – i gefnogi staff ym mhob agwedd ar eu rôl.

34 Mae'r mentrau hyn gan y Bwrdd Iechyd yn dangos ymrwymiad cryf i sicrhau bod staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu grymuso, a'u bod yn ddiogel yn seicolegol i godi llais ynglŷn â materion diogelwch cleifion. Er gwaethaf hyn, nid ydym wedi canfod digon o dystiolaeth o ymateb effeithiol i'n hargymhellion. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi ymgysylltu ddigon â staff ac nid oes ganddo wybodaeth ddigonol i ddeall pam fod staff yn teimlo;

- nad ydynt yn cael eu trin yn deg wrth hysbysu ynghylch gwallau, digwyddiadau trwch blewyn neu ddigwyddiadau gwirioneddol; neu
- nad oedd y Bwrdd Iechyd yn gweithredu ar bryderon.

Felly, ceir sicrwydd cyfyngedig bod y mentrau wedi'u dylunio'n briodol i fynd i'r afael â phryderon staff.

35 Mae rhai o'r trefniadau hyn, megis y rhaglen achredu wardiau a gwasanaethau cymorth allanol, yn newydd. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd wneud gwaith i ganfod a ydynt yn cael yr effaith a ddymunir a sicrhau bod y trefniadau'n diwallu anghenion staff. **(Argymhelliad 1.2 yn 2025)**

**Rydym ni o'r farn bod argymhellion 3.1 a 3.2 heb ddechrau**.

## Argymhellion ynghylch profiad cleifion

**Argymhelliad 4 yn 2022**

Er bod y Bwrdd Iechyd yn defnyddio ystod o ddulliau i gasglu gwybodaeth am brofiad cleifion, nid yw diweddariadau rheolaidd am adborth cleifion wastad yn cael eu darparu ar gyfer meysydd gwaith neu adrannau ac nid yw trefniadau'n systematig ar draws y sefydliad na'r gwasanaethau y mae'n eu comisiynu. Dylai'r Bwrdd Iechyd:

4.1 wneud gwaith i ddeall pam nad yw diweddariadau am adborth cleifion yn cael eu darparu'n rheolaidd ar gyfer meysydd gwaith neu adrannau; a

4.2 sicrhau bod trefniadau systematig ar gyfer coladu a gweithredu ar wybodaeth am brofiad cleifion ar draws y sefydliad a'r gwasanaethau y mae'n eu comisiynu.

36 Fe wnaethom ystyried a oedd gan y Bwrdd Iechyd ddulliau effeithiol ar gyfer profiad cleifion. Roeddem yn disgwyl gweld y canlynol:

- bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol i ddarparu diweddariadau am adborth cleifion ar gyfer meysydd gwaith ac adrannau; a
- bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol i goladu gwybodaeth am brofiad cleifion a gweithredu arni ar draws y sefydliad a'r gwasanaethau y mae'n eu comisiynu.

37 Canfuom **fod y Bwrdd Iechyd yn cryfhau ei ddull ar gyfer casglu gwybodaeth am brofiad cleifion, ei dadansoddi, adrodd arni a'i rhannu. Yn awr mae angen i'r Bwrdd Iechyd gwblhau ei waith i gasglu gwybodaeth am brofiad cleifion o'r gwasanaethau y mae'n eu comisiynu ac adrodd ar yr wybodaeth honno**.

38 Ym mis Mawrth 2023, fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo'r Strategaeth Profiad a Chynnwys Cleifion i wella gwasanaethau, effeithiolrwydd clinigol, diogelwch cleifion, a phrofiad defnyddwyr. Mae'r Strategaeth yn adnabod ystod o ddulliau ar gyfer cael adborth cleifion. Mae'r rhain yn cynnwys cyflwyno'r Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion newydd (Tachwedd 2023), parhau i gyflwyno platfform profiad dinasyddion CIVICA (ers mis Chwefror 2023), parhad y dull 'fe ddwedoch chi, fe wnaethom ni' a'r arolwg o ofal 'sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn'.

39 Gyda'i gilydd, mae'r trefniadau i gael adborth cleifion yn sicrhau bod amrywiaeth o farn yn cael ei chasglu a'i dadansoddi. Er ein bod yn deall bod ymgysylltiad â'r cyhoedd yn is o'i gymharu â byrddau iechyd eraill, mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Deilliannau Cleifion yn cael adroddiad ar adborth cleifion bob deufis a hwnnw'n adnabod themâu a thueddiadau, gwersi a ddysgwyd, a chamau gwella a gymerwyd mewn ymateb. Mae adborth cleifion bellach yn rhan o'r agenda ar gyfer y Fforwm Ansawdd, Diogelwch Cleifion a Dysgu ac mae bellach yn eitem safonol ar yr agenda yng nghyfarfodydd ansawdd a diogelwch cleifion isadrannau. **Rydym ni o'r farn bod argymhelliad 4.1 wedi'i gwblhau**.

40 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd cael adborth gan gleifion sy'n cael eu trin mewn gwasanaethau wedi eu comisiynu. Cyflwynwyd Fframwaith Sicrhau Ansawdd y Bwrdd Iechyd: Gwasanaethau wedi eu Comisiynu i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Deilliannau Cleifion ym mis Gorffennaf 2024. Un o'r prif elfennau y rhoddir ffocws arnynt yn y fframwaith hwn yw defnyddio gwybodaeth am brofiad cleifion i oleuo penderfyniadau comisiynu. Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio Datix i gofnodi unrhyw bryderon ynghylch profiad cleifion sy'n ymwneud â gwasanaethau wedi eu comisiynu. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu cofrestr ganolog o'r gwasanaethau wedi eu comisiynu ar draws y Bwrdd Iechyd. Unwaith y bydd wedi ei chwblhau, bydd y gofrestr hon yn cael ei defnyddio i sicrhau bod adborth cleifion yn cael ei gasglu'n rheolaidd gan yr holl wasanaethau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu comisiynu ar gyfer ei drigolion. **Rydym ni o'r farn bod argymhelliad 4.2 ar y gweill**.

## Argymhelliad ynghylch gweithio i wella

### Argymhelliad 5 yn 2022

Roedd Polisi Gweithio i Wella'r Bwrdd Iechyd i fod i gael ei adolygu yn 2018 ac mae'n cynnwys gwybodaeth sydd wedi dyddio. Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu a diweddaru'r Polisi Gweithio i Wella fel mater o flaenoriaeth.

41 Fe chwiliom ni am unrhyw ddiweddariadau i bolisi gweithio i wella'r Bwrdd Iechyd ac roeddem yn disgwyl gweld bod y Bwrdd Iechyd wedi adolygu a diweddaru ei bolisi Gweithio i Wella.

42 Canfuom **fod y Bwrdd Iechyd yn dal heb adolygu ei Bolisi Gweithio i Wella, a oedd i fod i gael ei adolygu yn 2018**.

43 Mae Polisi Gweithio i Wella'r Bwrdd Iechyd yn dal wedi dyddio ac nid yw wedi cael ei adolygu ers 2018. **Rydym ni o'r farn bod argymhelliad 5 ar y gweill.** Er bod y polisi Cymru gyfan yn dal i gael ei adolygu gan Lywodraeth Cymru, mae byrddau iechyd eraill yng Nghymru wedi diweddaru eu polisïau i sicrhau eu bod yn dal i fod yn gyfredol. Tra bo'r Bwrdd Iechyd yn aros am ganllawiau newydd gan Lywodraeth Cymru, dylai ddiweddaru ei bolisi yn y cyfamser i adlewyrchu'r strwythur sefydliadol cyfredol, safonau disgwyliedig, a gofynion y Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd. **(Argymhelliad 2 yn 2025)**

## Argymhellion ynghylch y fframwaith Ansawdd a Diogelwch

**Argymhelliad 6 yn 2022**

Mae fframwaith sicrhau ansawdd y Bwrdd Iechyd yn cynnwys ystod o bwyllgorau a grwpiau sy'n cyd-fynd â Safonau Iechyd a Gofal. Mae'r fframwaith yn cynorthwyo'r Bwrdd Iechyd i adnabod meysydd nad oeddent wedi darparu sicrwydd yn flaenorol. Fodd bynnag, ceir bylchau o hyd yn y llifoedd sicrwydd o rai is-grwpiau ac mewn perthynas ag elfennau o'r Safonau Iechyd a Gofal. Er bod y fframwaith yn weddol gynhwysfawr ar lefel gorfforaethol, nid yw'n disgrifio'r strwythur a phrosesau gweithredol ar gyfer ansawdd a diogelwch yn llawn. Dylai'r Bwrdd Iechyd:

6.1 cwblhau ei adolygiad o'r fframwaith ansawdd a sicrwydd i sicrhau bod llifoedd sicrwydd yn briodol, a bod y fframwaith yn gweithredu fel a fwriadwyd; a

6.2 disgrifio'r strwythurau a phrosesau gweithredol ar gyfer ansawdd a diogelwch o fewn y fframwaith sicrhau ansawdd a sut y maent yn cyd-fynd â'r strwythur corfforaethol i ddarparu sicrwydd 'o'r llawr i'r bwrdd'.

44 Fe wnaethom ystyried a oedd gan y Bwrdd Iechyd fframwaith sicrhau ansawdd effeithiol. Roeddem yn disgwyl gweld y canlynol:

- bod y Bwrdd Iechyd wedi cwblhau ei adolygiad o'r fframwaith sicrhau ansawdd i sicrhau bod llifoedd sicrwydd yn briodol, a'i fod yn gweithredu fel a fwriadwyd; a
- bod fframwaith sicrhau ansawdd y Bwrdd Iechyd yn disgrifio'n glir beth yw'r strwythurau a phrosesau gweithredol ar gyfer ansawdd a diogelwch a sut y maent yn cyd-fynd â'r strwythur corfforaethol i ddarparu sicrwydd 'o'r llawr i'r bwrdd'.

45 Canfuom **fod y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd o ran rhoi ei Fframwaith Llywodraethu a Sicrhau Ansawdd ar waith, ond bod angen iddo sicrhau ei fod yn nodi trefniadau sicrwydd eglur a phriodol 'o'r llawr/ward i'r Bwrdd'**.

46 Fe gymeradwyodd y Bwrdd Iechyd ei Fframwaith Llywodraethu a Sicrhau Ansawdd ym mis Gorffennaf 2023. Mae'r cynnydd o ran ei roi ar waith yn cynnwys:

- canoli'r adnodd ansawdd a diogelwch cleifion, yr ydym yn ei drafod yn fwy ym **mharagraff 50**;
- systemau newydd ar gyfer achredu a monitro perfformiad, gan gynnwys amlygrwydd data ar lefel wardiau ac achredu timau, i ategu dull o ddysgu a gwella sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chleifion;
- adolygu strwythurau ansawdd a diogelwch grwpiau a phwyllgorau i benderfynu a ydynt yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol;
- datblygu agendâu safonedig ar gyfer grwpiau Ansawdd a Diogelwch Cleifion i sicrhau dull cyson ar draws y sefydliad, a
- phenodi arweinydd llywodraethu clinigol ym mhob un o'r isadrannau i wella ymgysylltiad clinigol â'r tîm ansawdd a diogelwch cleifion.

47 Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cyflwyno Fframwaith Sicrwydd ac Uwchgyfeirio ar gyfer Llywodraethu Clinigol. Ei nod fydd sicrhau bod y Bwrdd yn cael gweld yn glir beth yw'r materion a sicrwydd o ran ansawdd ar draws yr ystod lawn o wasanaethau. Ceir cynllun gweithredu eglur sy'n ategu'r newidiadau hyn. Rydym wedi adolygu'r cynnydd hyd yma, ac er bod y fframwaith newydd yn diffinio trefniadau sicrhau ansawdd y Bwrdd a phwyllgorau, nid yw'n disgrifio'n ddigonol sut y bydd sicrwydd ar lefel cyfarwyddiaethau ac isadrannau'n gweithredu ac yn llifo o'r 'llawr i'r Bwrdd'. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fireinio'r fframwaith. Mae'n bwriadu cyflwyno fersiwn wedi'i diweddaru i'r Pwyllgor Diogelwch, Ansawdd a Deilliannau Cleifion yn haf 2025. **Rydym ni o'r farn bod argymhellion 6.1 a 6.2 ar y gweill**.

## Argymhelliad ynghylch adnoddau i ategu trefniadau llywodraethu ansawdd

**Argymhelliad 7 yn 2022**

Mae gan yr isadran Gofal wedi'i Drefnu a'r gyfarwyddiaeth Llawfeddygaeth Gyffredinol arweinwyr dynodedig ar gyfer sawl agwedd allweddol ar ansawdd a diogelwch. Fodd bynnag, canfuom nad oes gan rai arweinwyr dynodedig amser wedi'i ddiogelu ar gyfer y rolau hyn. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod gan staff gweithredol ddigon o amser a chapasiti i gyflawni'r rolau hyn yn effeithiol.

48 Fe wnaethom ystyried a oedd gan y Bwrdd Iechyd fframwaith Ansawdd a Diogelwch effeithiol. Roeddem yn disgwyl gweld bod y Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod gan staff gweithredol ddigon o amser a chapasiti i gyflawni rolau arweiniol dynodedig ar gyfer ansawdd a diogelwch.

49 Canfuom **fod y Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno trefniadau newydd i gryfhau ei gapasiti ansawdd a diogelwch, gwella cysondeb ei ddull a hyfforddi mwy o staff mewn gwella a sicrhau ansawdd**.

50 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu i wella capasiti ansawdd a diogelwch. Ym mis Chwefror 2024, fe ganolodd yr Arweinwyr Ansawdd a Diogelwch Cleifion[4] yn y Tîm Ansawdd a Diogelwch Cleifion corfforaethol. Fe wnaeth hefyd benodi Pennaeth Ansawdd a Diogelwch newydd a datblygu model 'partneriaid busnes' newydd. Mae ei bartneriaid ansawdd a diogelwch newydd wedi'u dyrannu i'r isadrannau, ond maent yn atebol i'r Tîm Ansawdd a Diogelwch Cleifion Corfforaethol. Mae hyn yn sicrhau dull cyson ond hefyd yn ymorol am ddyrannu adnoddau ansawdd a diogelwch mewn ffordd fwy cytbwys a theg. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd fynd ati'n rheolaidd i fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd y newidiadau hyn. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y manteision disgwyliedig yn cael eu gwireddu. **(Argymhelliad 3 yn 2025)**

51 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau adnoddau ansawdd a diogelwch ehangach hefyd. Rhannwyd yr isadran Gofal wedi'i Drefnu'n ddwy isadran, sef llawfeddygaeth gyffredinol a chymorth clinigol, gyda mwy o adnoddau'n cael eu darparu ar gyfer llywodraethu ansawdd. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn buddsoddi mewn hyfforddiant ychwanegol trwy ei gynlluniau Menter Ansawdd a datblygu hyfforddwyr ansawdd. Mae'r buddsoddiad hwn yn natblygiad staff yn gadarnhaol a dylai wella eu dealltwriaeth am lywodraethu ansawdd a sicrhau ei gynaliadwyedd hirdymor. **Rydym ni o'r farn bod argymhelliad 7 wedi'i gwblhau**.

## Argymhellion ynghylch sylw isadrannol i faterion ansawdd a diogelwch

**Argymhelliad 8**

Yn ddiweddar mae'r gyfarwyddiaeth Llawfeddygaeth Gyffredinol wedi sefydlu ei grŵp ansawdd a diogelwch cleifion ei hun. Fodd bynnag, nid oes gan y grŵp gylch gorchwyl, agenda safonedig, na thempledi adroddiadau ac ni chymerir cofnodion o gyfarfodydd. Er bod ansawdd a diogelwch wedi cael eu cynnwys mewn adolygiadau chwemisol gyda'r Tîm Gweithredol a chyfarfodydd sicrwydd misol gyda'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau, rydym yn nodi bod y cyfarfodydd sicrwydd misol wedi dod i ben ym mis Mawrth 2021.

[4] Ar adeg ysgrifennu, 43 aelod o staff oedd hyn.

Canfuom ffocws cyfyngedig ar ansawdd a diogelwch yng nghyfarfodydd Tîm Rheoli'r Isadran Gofal wedi'i Drefnu. Dylai'r Bwrdd Iechyd:

8.1 adolygu'r grwpiau diogelwch ac ansawdd cleifion gweithredol i sicrhau eu bod yn cefnogi trefniadau llywodraethu ansawdd y Bwrdd Iechyd yn effeithiol; a

8.2 sicrhau bod cyfarfodydd / fforymau gweithredol eraill yn darparu digon o ffocws ar ansawdd a diogelwch ochr yn ochr â materion cyllid, perfformiad a gweithredol.

52 Fe wnaethom ystyried a yw grwpiau isadrannol y Bwrdd Iechyd yn rhoi sylw priodol i faterion ansawdd a diogelwch. Roeddem yn disgwyl gweld y canlynol:

- bod y Bwrdd Iechyd wedi adolygu grwpiau diogelwch ac ansawdd cleifion gweithredol i sicrhau eu bod yn ategu ei drefniadau llywodraethu ansawdd yn effeithiol; a
- bod cyfarfodydd/fforymau gweithredol yn darparu digon o ffocws ar ansawdd a diogelwch ochr yn ochr â chyllid, perfformiad, a materion gweithredol.

53 Canfuom **fod y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd da trwy ei fframwaith Ansawdd a Llywodraethu newydd i sicrhau ffocws cyson a phriodol ar Ansawdd a Diogelwch Cleifion, ond bod angen mwy o waith i sicrhau bod hwn yn cael ei wreiddio ac yn cwmpasu pob maes**.

54 Fel a drafodwyd ym **mharagraff 50**, mae'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu ei strwythurau ansawdd a diogelwch, ac mae hefyd wedi cyflwyno agendâu safonedig ar gyfer ansawdd a diogelwch cleifion i sicrhau dull cyson. Fe wnaethom adolygu sampl o agendâu a phapurau ar gyfer cyfarfodydd timau rheoli a grwpiau Ansawdd a Diogelwch isadrannol yn y gyfarwyddiaeth Llawfeddygaeth Gyffredinol gynt. Fe wnaethom hefyd adolygu'r adroddiadau canol blwyddyn a diwedd blwyddyn a oedd yn crynhoi'r gweithgareddau trwy'r flwyddyn. Canfuom fod ansawdd a diogelwch bellach yn cael eu cynnwys yn rheolaidd yng nghyfarfodydd wythnosol Timau Rheoli Isadrannol, gydag eitem sefydlog ar yr agenda sy'n ymdrin â diogelwch cleifion ac ansawdd, ochr yn ochr â chyllid, perfformiad a materion gweithredol. Mae'r ddau grŵp yn gweithredu'n dda o fewn y gyfarwyddiaeth Llawfeddygaeth Gyffredinol gynt. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i roi'r dull hwn ar waith ar draws pob isadran a maes gwasanaeth. Ar y sail bod hwn yn waith sy'n digwydd ar hyn o bryd, **rydym ni o'r farn bod argymhelliad 8.1 wedi'i gwblhau a bod argymhelliad 8.2 ar y gweill**.

# Ymateb i ofynion y Ddyletswydd Gonestrwydd a'r Ddyletswydd Ansawdd

55 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau i weithredu trefniadau i gyflawni'r Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Roeddem yn disgwyl gweld y canlynol:

- bod y Bwrdd Iechyd wedi ystyried yr hyn y mae angen iddo ei wneud i weithredu'r dyletswyddau Ansawdd a Gonestrwydd, gyda chynlluniau yn eu lle i ymdrin ag unrhyw fylchau.
- bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau eglur i fonitro'r modd y gweithredir y dyletswyddau hyn sy'n adlewyrchu'r graddfeydd amser a'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r cynllun.
- yr adroddir yn rheolaidd wrth y Bwrdd a'i bwyllgorau ar y cynnydd o ran gweithredu'r dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd.
- bod aelodau'r Bwrdd yn cael eu briffio'n briodol ar y gofynion a'r cynlluniau a'u bod wedi cael hyfforddiant priodol mewn perthynas â'r dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd.
- bod hyfforddiant i staff wedi cael ei ddarparu i godi ymwybyddiaeth o'r gofynion dan y ddwy ddyletswydd; bod y Bwrdd Iechyd wedi adnabod arweinyddiaeth strategol, uwch arweinyddiaeth, ac arweinyddiaeth weithredol briodol i oruchwylio a chyflawni'r dyletswyddau; a bod yr holl staff yn deall eu priod gyfrifoldebau.

56 Canfuom fod y Bwrdd Iechyd **yn cymryd camau rhesymol i weithredu trefniadau i gyflawni'r dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd, ond bod cyfle i wella cydymffurfio a monitro lle mae hyfforddiant yn y cwestiwn**.

57 Daeth Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) 2020 i rym ar 1 Ebrill 2023. Cyn ei chyflwyno, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd asesu ei barodrwydd i gydymffurfio â'r Ddeddf yn erbyn sefyllfa sylfaenol Llywodraeth Cymru. Fe ymgysylltodd y Bwrdd Iechyd yn effeithiol â'i randdeiliaid, gan gynnal gweithdai a sesiynau gyda phartneriaid gofal iechyd, cleifion, a staff i sicrhau parodrwydd ar gyfer gweithredu gofynion newydd y ddyletswydd ansawdd a'r ddyletswydd gonestrwydd. I ategu ei waith i weithredu'r rhain, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd hefyd greu adnoddau hyfforddi a chynnwys ar y fewnrwyd a oedd wedi'u neilltuo ar gyfer staff. Fe greodd fideos ar gyfer y cyhoedd i helpu i godi ymwybyddiaeth yn fwy eang hefyd. Fe ddatblygodd y Bwrdd Iechyd raglen weithredu cyn i'r Ddeddf ddod i rym ym mis Ebrill 2023, gydag adroddiadau ar y cynnydd o ran cyflawni'r dyletswyddau'n cael eu cyflwyno bob deufis i'r pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Deilliannau Cleifion.

58 Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd ddatblygu a chymeradwyo ei Strategaeth Ansawdd a briffio aelodau'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2022 cyn lansio'r strategaeth ym mis Ebrill 2023. Ym mis Mai 2024, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd adrodd ar gynnydd yn erbyn amcanion ei Strategaeth Ansawdd 2023-24 a nodi ei flaenoriaethau

ansawdd ar gyfer 2024-25 yn ei adroddiad ansawdd blynyddol cyntaf. Mae'r Strategaeth Ansawdd yn cyd-fynd â gofynion y ddyletswydd gonestrwydd a'r ddyletswydd ansawdd ac fe'i hategir gan ffrydiau gwaith eglur ac amcanion CAMPUS. Canfuom y canlynol hefyd:

- trefniadau priodol o ran arweinyddiaeth strategol ac uwch arweinyddiaeth ar gyfer gweithredu'r dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd, a oedd yn cael eu harwain gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, gyda chymorth ei huwch dîm arwain.
- dulliau rhesymol ar gyfer hyfforddi staff gan gynnwys cyflwyno modiwlau e-ddysgu ar y dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd. Fe sefydlodd y Bwrdd Iechyd dudalennau eglur a hygyrch ar y fewnrwyd hefyd a oedd yn nodi trefniadau, cyfrifoldebau a gofynion cysylltiedig. Fodd bynnag, mae angen i'r Bwrdd Iechyd wella'r niferoedd sy'n gwneud yr hyfforddiant hwn a chofnodi a monitro cyfraddau cwblhau yn fwy effeithiol **(Argymhellion 4.1 a 4.2 yn 2025)**.
- mae'r Pwyllgor Diogelwch, Ansawdd a Deilliannau Cleifion wrthi'n weithredol ac yn briodol yn monitro'r modd y cyflawnir y strategaeth ansawdd, y cynllun gweithredu a sicrwydd ehangach ynghylch ansawdd a diogelwch.

59 Mae mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad ar Lywodraethu Ansawdd yn 2022 a'r argymhellion newydd yn yr adroddiad hwn yn cyflawni rôl bwysig o ran sicrhau bod trefniadau i gyflawni'r dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd yn cael eu gwreiddio'n llawn.

# Atodiad 1

## Dulliau archwilio

Mae **Arddangosyn 4** yn nodi'r dulliau a ddefnyddiom ni i gyflawni'r gwaith hwn. Mae ein tystiolaeth yn gyfyngedig i'r wybodaeth a gafwyd trwy'r dulliau isod.

| Elfen o'r dull archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Dogfennau | Fe wnaethom adolygu ystod o ddogfennau, gan gynnwys:<br>• Fframwaith Strategaeth Ansawdd<br>• Fframwaith Llywodraethu Ansawdd<br>• Adroddiadau Archwilio Mewnol<br>• Strategaeth Profiad a Chynnwys Cleifion<br>• Polisïau a Gweithdrefnau<br>• Rheoli Risg<br>• Fframwaith Gwrando, Dysgu a Gwella<br>• Adroddiadau Perfformiad Ansawdd<br>• Cynllun Archwilio<br>• Adroddiadau Gweithgarwch Archwilio Clinigol<br>• Adroddiadau Pwyllgor ar gyfer Archwilio, Risg a Sicrwydd<br>• Fframwaith Sicrwydd Comisiynu<br>• Adroddiad Blynyddol Gweithio i Wella<br>• Adroddiad Ansawdd Blynyddol |

| Elfen o'r dull archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Cyfweliadau | Fe wnaethom gyfweld â'r canlynol:<br>• Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio<br>• Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol<br>• Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol<br>• Uwch Arweinydd Llywodraethu Ansawdd<br>• Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd a Diogelwch Cleifion<br>• Pennaeth Risg a Sicrwydd Corfforaethol<br>• Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio<br>• Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd<br>• Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Deilliannau Cleifion |
| Arsylwadau | Fe arsylwom ni ar y Pwyllgor Diogelwch, Ansawdd a Deilliannau Cleifion |

# Atodiad 2

## Ymateb sefydliadol i'r argymhellion archwilio newydd

Mae **Arddangosyn 5** yn nodi ymateb y Bwrdd Iechyd i'n hargymhellion archwilio newydd.

| Cyf | Argymhellion | Ymateb sefydliadol | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **A1** | Dylai'r Bwrdd Iechyd gymryd camau i wella ei drefniadau i staff godi pryderon trwy:<br><br>1.1 diweddaru'r weithdrefn i staff y GIG godi pryderon fel ei bod wedi'i theilwra i'r Bwrdd Iechyd ac yn cynnwys gwybodaeth a chysylltiadau sefydliad-benodol. | Mae Gweithdrefn Codi Pryderon GIG Cymru'n weithdrefn genedlaethol sy'n berthnasol i holl sefydliadau GIG Cymru ac mae'n cynnwys sut i godi pryderon gan ddibynnu ar eu natur (e.e. wrth y rheolwr llinell, y Cyfarwyddwr Gweithredol). Mae gennym hefyd dudalen wedi'i neilltuo ar SharePoint sy'n hygyrch i'r holl staff ac yn cynnwys gwybodaeth benodol a manylion cyswllt i staff godi pryderon, gan gynnwys unigolion a hyrwyddwyr penodol: Codi Llais Heb Ofn.<br>Byddwn yn cryfhau ein dull o weithredu'r Weithdrefn i Staff y GIG Godi Pryderon trwy sicrhau bod y dull yn adlewyrchu ein cyd-destun lleol a'n strwythur sefydliadol. Bydd y ddogfen weithdrefnol a'i hatodiadau ategol yn cael eu diweddaru i gynnwys enw'r Bwrdd Iechyd lle y bo'n berthnasol, i enwi unigolion allweddol yn y sefydliad, ac i sicrhau bod yr holl atodiadau'n cyd-fynd â strwythur y Bwrdd Iechyd. | Mehefin 2025 | **Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol**<br><br>**Yn cael ei roi ar waith gan:** Gyfarwyddwr Cynorthwyol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol |

| Cyf | Argymhellion | Ymateb sefydliadol | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| | 1.2 monitro effaith gwasanaethau cymorth allanol a mentrau achredu i sicrhau bod y camau gweithredu hyn yn diwallu anghenion staff ac yn trosi'n welliannau ystyrlon mewn deilliannau ymgysylltu â staff a diogelwch cleifion. | Bydd y diweddariad yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf sydd wedi'i drefnu ar gyfer Grŵp Polisi'r Gweithlu a Datblygu Sefydliadol i gael ei gadarnhau.<br><br>Bydd y Bwrdd Iechyd yn asesu effaith achredu wardiau/timau trwy broses gwerthuso ar ôl gweithredu; bydd hyn yn helpu i benderfynu a yw'r fenter yn gwella ymgysylltiad â staff, deilliannau diogelwch cleifion a bydd yn helpu i benderfynu ar feysydd i'w gwella. | Medi 2025 | **Cyfarwyddwr Nyrsio**<br>**Yn cael ei roi ar waith gan:** Y Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio |
| **A2** | Dylai'r Bwrdd Iechyd gymeradwyo adendwm neu ddiweddariad i'r Polisi 'Gweithio i Wella' cyfredol i adlewyrchu'r strwythur sefydliadol cyfredol a'r gofynion o ran y ddyletswydd ansawdd a'r ddyletswydd gonestrwydd. | Mae'r polisi 'Gweithio i Wella' presennol wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r strwythur sefydliadol cyfredol a gofynion y ddyletswydd ansawdd a'r ddyletswydd gonestrwydd. | Wedi'i gwblhau | **Cyfarwyddwr Nyrsio**<br>**Yn cael ei roi ar waith gan:** Y Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio |

| Cyf | Argymhellion | Ymateb sefydliadol | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **A3** | O fewn y 12 mis nesaf, dylai'r Bwrdd Iechyd werthuso effaith canoli ei dimau Ansawdd a Diogelwch Cleifion i sicrhau bod y manteision bwriadedig yn cael eu cyflawni. (**Paragraff 50**) | Bydd y Pennaeth Ansawdd a Diogelwch Cleifion yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r broses ganoli.<br><br>Bydd yr adolygiad yn cynnwys asesiad o effeithiolrwydd y strwythur ganoledig o ran gwella deilliannau diogelwch cleifion, ymgysylltiad â staff, effeithlonrwydd gweithredol a chydymffurfio. Bydd yr adolygiad hwn yn cynnwys casglu adborth gan staff, dadansoddi metrigau perfformiad, ac adnabod unrhyw feysydd ar gyfer gwella. | Ebrill 2026 | **Cyfarwyddwr Nyrsio**<br><br>**Yn cael ei roi ar waith gan:** Y Pennaeth Ansawdd a Diogelwch Cleifion a'r Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio |
| **A4** | Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei drefniadau ar gyfer hyfforddiant e-ddysgu ar y ddyletswydd ansawdd a'r ddyletswydd gonestrwydd. Dylai hyn gynnwys:<br>4.1 cymryd camau i gynyddu cyfraddau cyfranogi mewn hyfforddiant e-ddysgu ar y Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd, i | Mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn GIG Cymru wedi bod trwy'r Pwyllgor Ymgynghorol Dysgu Craidd ac wedi cael ei mabwysiadu'n ffurfiol fel modiwl e-ddysgu gorfodol ar gyfer yr holl staff perthnasol yn y Bwrdd Iechyd.<br><br>Bydd hyfforddiant ar y Ddyletswydd Ansawdd yn GIG Cymru yn mynd trwy'r Pwyllgor Ymgynghorol Dysgu Craidd ac yn cael ei fabwysiadu'n ffurfiol fel modiwl e- | Wedi'i gwblhau<br><br>Mehefin 2025 | **Yn cael ei roi ar waith gan:** Gyfarwyddwr Cynorthwyol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol<br><br>**Yn cael ei roi ar waith gan:** |

| Cyf | Argymhellion | Ymateb sefydliadol | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| | sicrhau bod gan staff ddealltwriaeth dda am eu cyfrifoldebau dan y gofynion. | ddysgu gorfodol ar gyfer yr holl staff perthnasol yn y Bwrdd Iechyd. | | Gyfarwyddwr Cynorthwyol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol |
| | 4.2 monitro ac adrodd ar gyfraddau cwblhau ar gyfer hyfforddiant e-ddysgu ar y Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd. | Mae gwybodaeth fonitro am gydymffurfio â'r holl hyfforddiant statudol a gorfodol yn cael ei chyhoeddi'n fisol, gan gynnwys y Ddyletswydd Gonestrwydd. Bydd y Ddyletswydd Ansawdd yn cael ei chynnwys unwaith y bydd wedi cael ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Ymgynghorol Dysgu Craidd. | Gorffennaf 2025 | **Yn cael ei roi ar waith gan:** Gyfarwyddwr Cynorthwyol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall,

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.